



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

**Dogfen gynghori ar faint dosbarthiadau babanod:
Cydymffurfio â'r terfyn ac apeliadau derbyn i
ysgolion**

Rhagfyr 2015

Trosolwg Mae'r ddogfen gynghori hon yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n codi wrth geisio cydymffurfio â chyfraith maint dosbarthiadau a chofnodi data ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r cyngor yn adlewyrchu'r Cod Derbyn i Ysgolion, y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a rheoliadau ynghylch maint dosbarthiadau ategol ond mae wedi ei ysgrifennu mewn iaith lai technegol. Mae'r cyngor yn cynnig atebion enghreifftiol i broblemau cyffredin a llai cyffredin sy'n codi wrth drefnu dosbarthiadau a chofnodi data.

Y prif faterion Mae'r ddogfen hon wedi cael ei hysgrifennu fel dogfen hwylus i gyfeirio ati ar y ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod ac apeliadau derbyn i ysgolion, a hynny ar gyfer y flwyddyn Dderbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae'n targedu'r rhai sydd â chyfrifoldeb am drefnu dosbarthiadau ac am gwblhau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), y rhai sy'n eistedd ar bwyllogorau derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr a sefydledig a phaneli apêl annibynnol.

Pam rydyn ni'n cynhyrchu'r ddogfen hon? Wrth roi'r rôl i CYBLD o gasglu data am faint dosbarthiadau babanod, mae wedi dod i'r amlwg bod yna fwy o gamgodio ar gyfer disgyblion a oedd/nad oedd yn eithriadau ac o ran nifer y dosbarthiadau sy'n fwy na'r terfyn ar gyfer maint dosbarthiadau babanod nag a nodwyd yn flaenorol.

Efallai y bydd y cyngor yn helpu paneli sy'n ystyried apeliadau ynghylch maint dosbarthiadau er mwyn sicrhau mai dim ond yn yr amgylchiadau iawn y caiff apeliadau eu cynnal.

Manylion Cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 6562
Rhif ffacs: 029 2082 6109

e-bost: SchoolsManagementDivision3@Wales.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/admissions-and-appeals-code/?skip=1&lang=cy>



Cynnwys

Crynodeb	2
Cyflwyniad	3
Y terfyn ar faint dosbarthiadau ac eithriadau	4
Deddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod	4
Targed ar gyfer maint dosbarthiadau iau	4
Niferoedd derbyn a threfniadaeth dosbarthiadau	6
Nifer derbyn	6
Pan fydd y nifer derbyn a maint y dosbarth babanod yn wahanol	6
Ceisiadau am le mewn dosbarth babanod	7
Ceisiadau am le mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol sefydledig	7
Hysbysu am ganlyniad cais	8
Trefniadaeth dosbarthiadau	8
Addysgu oedrannau cymysg	9
Athrawon dosbarth a chynorthwywyr addysgu lefel uwch	9
Eithriadau i faint dosbarthiadau babanod	10
Categoriâu'r eithriadau i faint dosbarthiadau babanod	10
Eithriadau i faint dosbarthiadau iau	13
Categoriâu'r eithriadau i faint dosbarthiadau iau	13
Ffurflenni data	13
Apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn i ysgolion	15
Apeliadau'n ymwneud â maint dosbarthiadau babanod	15
Mynychu gwrandawriad yr apêl	16
Atodiad A: Diffiniad o 'athro neu athrawes ysgol' at ddibenion maint dosbarthiadau babanod	18
Atodiad B: Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau ysgolion ac ALLau	19
Atodiad C: Rhestr wirio	20

Crynodeb

Mae'r cyngor hwn wedi cael ei ysgrifennu fel dogfen hwylus i gyfeirio ati ar y ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau derbyn i ysgolion pryd bynnag y bo maint dosbarthiadau statudol yn broblem. Mae'n targedu pawb sydd â chyfrifoldeb am drefnu dosbarthiadau. Bydd hefyd o gymorth wrth lenwi ffurflen data statudol y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion¹, y rheini sy'n eistedd ar bwyllgorau derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig a phaneli apêl. Er hwylustod, mae'r ddogfen yn cynnwys nifer o ddarnau perthnasol o'r Cod Derbyn i Ysgolion² â'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion³, ond dylai pawb sy'n ymwneud â gwaith derbyniadau ymgyfarwyddo â darpariaethau'r Codau a'r rheoliadau sydd fwyaf perthnasol i'w gwaith.

Mae'r cyngor hwn yn ceisio egluro rhai meysydd sydd wedi achosi problemau o bryd i'w gilydd yn ffurflenni'r CYBLD ac yn rhoi enghreifftiau o arfer derbyniol. Dylai'r wybodaeth am apeliadau gael ei darllen ar y cyd â'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion cyfredol.

¹ [Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion \(CYBLD\)](#)

² [Y Cod Derbyn i Ysgolion 2013](#)

³ [Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion 2013](#)

Cyflwyniad

Ers 1998, mae deddfwriaeth⁴ wedi'i gwneud yn ofynnol pennu uchafswm o 30 o ddisgyblion ar gyfer dosbarthiadau babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2). Mae terfyn statudol o 30 disgybl wedi bod yn weithredol i **bob** dosbarth babanod yng Nghymru er mis Medi 2001, ar ôl iddo gael ei gyflwyno a'i weithredu'n gynyddol yn ystod y 3 blynedd academaidd cyn hynny.

Yn ystod y cyfnod trosiannol o dair blynedd, darparodd Llywodraeth Cymru £36 miliwn bron i awdurdodau lleol (ALlau) i helpu i ariannu penodi athrawon newydd, ac ar gyfer darparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol. Cafodd lefel gymesur o gyllid parhaus ei throsglwyddo i'w gynnwys o fewn dyraniadau'r Grant Cynnal Refeniw (GCR) o fis Medi 2001 ymlaen.

Yn 1998 roedd 30% o fabanod mewn dosbarthiadau a oedd â dros 30 o ddisgyblion i un athro neu athrawes gymwysedig yng Nghymru. Roedd hyn wedi gostwng i 2.3% ym mis Medi 2003.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu tuedd at gynnydd yng nghyfran y dosbarthiadau babanod mwy (dros 30) (o 2.4% ym Medi 2010 i 5.4% ym mis Ionawr 2014). Deddfwyd ar gyfer eithriadau ychwanegol yn 2009 (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) i ganiatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd ac mae'r rhain i raddau helaeth yn esbonio'r cynnydd diweddarach yn nifer y dosbarthiadau sydd â mwy na 30 o ddisgyblion ynddynt.

Mae nifer y dosbarthiadau mawr sy'n torri'r rheol ynghylch maint dosbarthiadau wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ac, o sgwrsio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, gwelwyd rhai problemau cyffredin fel:

- camgodio data;
- camddeall y deddfwriaeth;
- codio disgyblion yn anghywir fel eithriadau;
- peidio â chodio disgyblion fel eithriadau pan ddylent fod wedi gwneud hynny.

Cytunodd y Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau blaenorol na ddylid gwneud unrhyw gynlluniau pellach i gwtogi ar faint dosbarthiadau ar lefel babanod nac ar lefel oed cynradd i osod terfyn newydd o 25 o ddisgyblion i bob athro neu athrawes gymwysedig oherwydd diffyg tystiolaeth bod cyfiawnhad i ostyngiad neu derfyn o'r fath, o ran canlyniadau addysgol a goblygiadau cost.

Yn wreiddiol rhoddwyd arian neilltuol i un ochr i helpu ysgolion i ad-drefnu er mwyn bodloni'r terfynau ar faint dosbarthiadau e.e. creu ystafelloedd dosbarth ychwanegol a chyflogi athrawon ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r cyllid i helpu awdurdodau lleol i fodloni'r terfyn ar faint dosbarthiadau erbyn hyn wedi'i gynnwys yn nyraniadau'r GCR. Gall awdurdodau lleol ddewis cynnwys yn eu fformiwla ariannu ffactor i gyfeirio adnoddau i ysgolion sydd â dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 1 i'w galluogi i fodloni'r ymrwymiad o ran maint dosbarthiadau.

⁴ [Rheoliadau Derbyniadau Ysgol \(Meintiau Dosbarthiadau Babanod\) \(Cymru\) 2013](#)

Y terfyn ar faint dosbarthiadau ac eithriadau

Deddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod

Nid y nifer derbyn ar gyfer yr ysgol yw hwn ond y terfyn cyfreithiol ar nifer y disgyblion a ganiateir mewn dosbarth babanod, h.y. unrhyw ddosbarth lle bydd y rhan fwyaf o'r plant wedi cyrraedd 5, 6 neu 7 oed *yn ystod y flwyddyn academaidd*.⁵

Dywed y ddeddfwriaeth:

*“ni chaniateir i unrhyw ddosbarth babanodgynnwys mwy na 30 o ddisgyblion pan gynhelir sesiwn addysgu gyffredin gan un athro neu athrawes ysgol”*⁶

Nid yw ‘sesiwn addysgu gyffredin’ yn cynnwys gwasanaeth yr ysgol nac unrhyw weithgaredd ysgol arall a gynhelir fel arfer gyda grwpiau mawr o ddisgyblion, ac ni ddylai gweithgareddau o'r fath gael eu cynnwys wrth gyfrif maint dosbarthiadau at ddibenion CYBLD.

Y terfyn ar faint dosbarthiadau babanod yw'r uchafswm (30) o blant y gellir ei addysgu mewn dosbarth babanod. Gall dosbarth babanod gynnwys plant o un grŵp blwyddyn neu gyfuniad o grwpiau blwyddyn gwahanol h.y. Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, sy'n cael eu haddysgu gan un athro neu athrawes ysgol, a gall gynnwys disgyblion meithrin os mai plant hŷn yw mwyafrif y plant o hyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r terfyn ar faint dosbarthiadau babanod yn berthnasol i bob dosbarth babanod ond, mewn rhai achosion, yn enwedig pan fydd disgyblion meithrin yn y dosbarth, nid yw'n amlwg a yw'r dosbarth yn cydymffurfio. Fel rheol gyffredinol, mae dosbarthiadau'n syrthio i un o'r grwpiau canlynol:

- Dosbarth cymysg sy'n cynnwys disgyblion Meithrin a Derbyn, a disgyblion Derbyn yw mwyafrif y dosbarth, mae'r terfyn 30 disgybl yn weithredol a rhaid peidio â mynd yn groes i hynny.
- Dosbarth cymysg sy'n cynnwys disgyblion Meithrin a Derbyn, a disgyblion Meithrin yw mwyafrif y dosbarth ym mhob sesiwn, nid yw'r terfyn 30 disgybl yn weithredol.
- Dosbarth cymysg sy'n cynnwys disgyblion Meithrin a Derbyn, a nifer cyfartal o ddisgyblion o bob grŵp, ni fydd y terfyn 30 disgybl yn weithredol.

Targed ar gyfer maint dosbarthiadau iau

Cafodd y targed i leihau maint dosbarthiadau iau i 30 o ddisgyblion neu lai ei osod yn 2000. Rhwng 2001-02 a 2005-06 defnyddiwyd oddeutu £74 miliwn o arian grant arbennig gan awdurdodau lleol i leihau maint dosbarthiadau iau. Ar ôl cyrraedd y

⁵ [Rhan 4, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#)

⁶ [Rheoliadau Addysg \(Maint Dosbarthiadau Babanod\) \(Cymru\) 1998](#)

targed o leihau maint dosbarthiadau iau i 30 disgybl neu lai, daeth yr arian grant arbennig ar gyfer y cynllun hwn i ben a chafodd yr arian at y diben hwn ei gynnwys yn y GCR.

Er na cheir deddfwriaeth sy'n gorfodi terfyn ar faint dosbarthiadau iau, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i 30 disgybl i bob athro neu athrawes ddosbarth fod yn 'darged' o hyd ar gyfer dosbarthiadau iau (gweler paragraff 3.47 y Cod Derbyn i Ysgolion).

Niferoedd derbyn a threfniadaeth dosbarthiadau

Nifer derbyn

Dylid ystyried y nifer derbyn fel lleiafswm ac uchafswm nifer y disgyblion y mae'n rhaid eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn os daw ceisiadau digonol i law. Gallai mynd dros y nifer derbyn, gyda disgyblion ychwanegol yn cael eu derbyn i grŵp blwyddyn, achosi gorlenwi ac anfantais i addysg y plant, nid yn unig yn y dosbarth a'r ysgol ond yn yr ardal ehangach hefyd. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae rhai ysgolion yn orlawn ac ysgolion eraill heb gyrraedd eu capasiti a bod ganddynt felly nifer fawr o leoedd gwag.

Mae'r nifer derbyn yn cael ei gyfrifo fel cyfran o gapasiti'r ysgol gyfan. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo capasiti ysgol i'w gweld yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru [Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru](#)⁷. Yna rhaid rhannu capasiti'r ysgol â nifer y grwpiau blwyddyn, a'r nifer a gyfrifir yw'r nifer derbyn.

Rhaid ail-gyfrifo'r nifer derbyn pan gaiff adeiladau/dosbarthiadau eu hychwanegu, eu tynnu oddi yno neu os newidir eu defnydd, gan y bydd hyn yn effeithio ar y capasiti cyffredinol.

Pan fydd y nifer derbyn a maint y dosbarth babanod yn wahanol

Rhaid glynu wrth y nifer derbyn gan ei fod yn seiliedig ar y cyfrifiad o'r capasiti ar gyfer yr ysgol gyfan. Os yw nifer derbyn ysgol a'r terfyn ar faint dosbarthiadau'n agos ond nid yr un fath, rhaid bod yn ofalus i dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn, boed hwnnw'n llai na neu'n fwy na 30. Y nifer derbyn yw'r brif ystyriaeth ac ni ddylid mynd dros y ffigur hwn. Os mai 29 yw nifer derbyn yr ysgol a bod 30 o geisiadau'n dod i law, dim ond 29 o ddisgyblion ddylai gael eu derbyn. I'r gwrthwyneb, os yw'r nifer derbyn yn 31 rhaid i bob ymgeisydd hyd at y nifer gael eu derbyn, yn hytrach na dim ond 30 i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod.

Esiampl

Gallai ysgol sydd â nifer derbyn o 40 gyflogi, ar ddechrau'r flwyddyn, 4 neu 5 o athrawon drwy gael 2 athro neu athrawes ar gyfer blwyddyn Derbyn, neu gyfuno Derbyn a Blwyddyn 1, a Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, a rhannu 120 o ddisgyblion rhwng yr athrawon gan sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio ar draws y Cyfnod Sylfaen.

Opsiwn 1		Opsiwn 2	
Derbyn x2	20	Derbyn	30
Blwyddyn 1	30	Derbyn/ Blwyddyn 1	10/20
Blwyddyn 1/2	10/15	Blwyddyn 1/ Blwyddyn 2	20/10
Blwyddyn 2	25	Blwyddyn 2	30
Cyfanswm	120	Cyfanswm	120

⁷ [Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru](#)

Os yw'r ceisiadau ar gyfer y flwyddyn dderbyn arferol i ddsbarth babanod (Derbyn fel arfer) mewn ysgol nad yw'n derbyn disgyblion ar sail gallu, yn cyrraedd y nifer derbyn ond ddim yn uwch na hwnnw, rhaid i awdurdodau derbyn dderbyn pob disgybl hyd at nifer derbyn yr ysgol; hyd yn oed pe byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddynt gyflogi athro neu athrawes arall neu ad-drefnu dosbarthiadau er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod.

Fel y mae paragraff 3.46 o'r Cod Derbyn i Ysgolion yn ei nodi, er bod yna ddisgwyl i'r ysgolion dderbyn plant hyd at y nifer derbyn ym mhob grŵp blwyddyn, nid yw hwn yn ofyniad statudol ac, yn achos dosbarthiadau babanod, mae'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau yn berthnasol. Caiff awdurdodau derbyn wrthod derbyn disgyblion i leoedd mewn unrhyw flwyddyn heblaw am y flwyddyn dderbyn arferol (Derbyn), os bydd cynnig lle yn esgor ar anfantais o ran maint y dosbarth (e.e. gan wneud iddynt orfod cyflogi athro neu athrawes ychwanegol neu greu dosbarth arall). Gellir gwrthod derbyn plant i Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2, felly, os bydd cynnig lle iddynt yn creu anfantais o ran maint y dosbarth, hyd yn oed os nad yw'r nifer derbyn mewn perthynas â'r grwpiau blwyddyn hyn wedi'u cyrraedd.

Ceisiadau am le mewn dosbarth babanod

Mae paragraff 3.9 o'r Cod Derbyn i Ysgolion yn darparu bod rhaid i bob cais am le mewn dosbarth babanod gael eu gwneud ar y ffurflen gais berthnasol. Gellir llenwi'r ffurflen hon ar-lein neu ar bapur. Rhaid i'r ffurflenni cais fod yn union yr un fath a gofyn am yr un wybodaeth, boed nhw'n fersiynau papur neu ar-lein.

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu, os ceir digon o geisiadau i gyrraedd y nifer derbyn ond ddim yn mynd drosto, fod yn rhaid derbyn pob cais (yn y flwyddyn dderbyn arferol). Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer derbyn, rhaid asesu'r holl geisiadau yn erbyn y meini prawf ar gyfer sefyllfa pan geir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael gan wneud cynigion yn unol â'r system rancio.

Ceisiadau am le mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig

Mae paragraff 3.4 o'r Cod Derbyn i Ysgolion yn darparu, os mai'r ysgol ei hun yw'r awdurdod derbyn (ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir neu Ysgolion Sefydledig), fod yr un rheolau'n berthnasol. Os yw'r ceisiadau ar gyfer dosbarth babanod ar gyfer y flwyddyn dderbyn arferol yn cyrraedd y nifer derbyn ond ddim yn fwy na'r nifer hwnnw, rhaid derbyn pob cais. Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer derbyn, rhaid i'r pwyllgor derbyniadau, a sefydlir gan y corff llywodraethu, asesu pob cais; **ni chaniateir** dirprwyo'r broses hon i unigolyn (paragraff 3.32 o'r Cod). Os mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn, rhaid i swyddog(ion) priodol o'r awdurdod lleol wneud yr asesiad.

Mae'r cyngor hwn yr un mor berthnasol i benderfyniadau a wneir y tu allan i'r cylch derbyn arferol. Ceir diffiniad o'r hyn nad yw'n rhan o'r cylch derbyn arferol yn adran

2(2) o Reoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013.

Mae paragraff 3.33 o'r Cod yn mynnu na ddylai'r Pennaeth, neu swyddogion eraill ysgolion a gynhelir, roi'r argraff i rieni y bydd eu cais yn llwyddiannus. Rhaid iddynt beidio â dweud wrthynt fod eu plentyn wedi cael lle yn yr ysgol, nes bydd cynnig o le wedi cael ei wneud yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, os ceir tystiolaeth bod rhieni wedi cael gwybod gan bennaeth, neu swyddog arall o'r ysgol, y bydd eu plentyn yn cael lle mewn ysgol, gallent yn rhesymol ddisgwyl bod gan y sawl sy'n gwneud y cynnig awdurdod i wneud hynny. Os gwnaed cynnig anffurfiol, dylai'r awdurdod derbyn fel arfer anrhydeddu'r cynnig, er mewn gwirionedd nad oedd efallai wedi awdurdodi'r unigolyn hwnnw i wneud y cynnig.

Mae'n bwysig nodi na ddylai'r cynnig hwn amharu ar dderbyn plant eraill y byddent, fel arall, wedi cael cynnig lle pe na byddai'r cynnig anffurfiol wedi cael ei wneud.

Gallai gwneud cynigion answyddogol arwain at dorri'r rheoliadau ar faint dosbarthiadau (yn achos dosbarthiadau babanod), ac mae hwn yn fater y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd camau perthnasol i ddelio ag ef. Felly, mae'n bwysig atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi.

Hysbysu am ganlyniad cais

Rhaid hysbysu rhieni am ganlyniad pob cais am le yn ysgrifenedig ar yr un pryd yn y cylch derbyn arferol. Ar gyfer y flwyddyn dderbyn arferol, mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn disgwyl i'r holl awdurdodau derbyn lynu wrth y [Rheoliadau Derbyniadau Ysgol \(Dyddiad Cynnig Cyffredin\) \(Cymru\) 2013](#)⁸ ac anfon llythyrau cynnig ar y dyddiadau a bennwyd. Fel y nodir yn adran 1(4) y Rheoliadau, daw'r dyddiad cynnig cyffredin i ysgolion cynradd yn gyfraith yn 2018/19⁹.

Trefniadaeth dosbarthiadau

Caiff dosbarthiadau eu trefnu gan y pennaeth a'r corff llywodraethu. Mae'n ddyletswydd ar y pennaeth a'r corff llywodraethu i gynllunio'r dosbarthiadau fel nad oes dim mwy na 30 o ddisgyblion ym mhob dosbarth babanod. Yn ddelfrydol, ni ddylai fod mwy na 30 o ddisgyblion ym mhob dosbarth iau chwaith. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, rhaid i ysgolion ystyried trefniadaeth eu dosbarthiadau yn flynyddol a chymryd camau perthnasol megis addysgu oedrannau cymysg, cyflogi athro neu athrawes arall a/neu ddefnyddio ystafelloedd dosbarth ychwanegol i gydymffurfio.

I gynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio dylai'r awdurdod derbyn hysbysu'r pennaeth a'r corff llywodraethu, cyn gynted ag y bo modd, ynghylch nifer y disgyblion y disgwylir iddynt gael eu derbyn i'r ysgol yn y mis Medi nesaf er mwyn caniatáu i'r gwaith o gynllunio dosbarthiadau ddechrau. Dywed arfer da wrthym fod penaethiaid a chyrrff

⁸ [Rheoliadau Derbyniadau Ysgol \(Dyddiad Cynnig Cyffredin\) \(Cymru\) 2013](#)

⁹ [Rheoliad 1\(1\) o Reoliadau Derbyniadau Ysgol \(Dyddiad Cynnig Cyffredin\) \(Cymru\) 2013](#)

llywodraethu sydd hefyd yn cynnwys y plant oedran meithrin neu Dderbyn hynny y gellir eu derbyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol yn eu gwaith cynllunio, yn ogystal â disgyblion sy'n dechrau ym mis Medi, i fwrw cyfrif o effaith derbyn dros gyfnod neu'n nes ymlaen, yn fwy tebygol o gydymffurfio yn y dyfodol. Er nad yw'n bosibl rhagweld derbyniadau ychwanegol yn gwbl gywir, bydd cynllunio ymlaen ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant hyn yn golygu ei bod yn llai tebygol y terfir ar ddsbarthiadau ac y bydd dosbarthiadau yn tyfu'n rhy fawr yn nes ymlaen yn y flwyddyn ysgol.

Addysgu oedrannau cymysg

Wrth ddelio â cheisiadau am le i ddsbarth babanod ar yr adeg dderbyn arferol h.y. Derbyn, rhaid i awdurdod derbyn yr ysgol roi lle i hyd at ei nifer derbyn. Bydd llawer o ysgolion nad oes ganddynt niferoedd derbyn sydd yr un fath â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau na niferoedd y gellir eu rhannu'n hawdd er mwyn cydymffurfio.

Dylai'r arfer o addysgu oedrannau cymysg gael ei ddefnyddio pan fo niferoedd yn caniatáu, er mwyn sicrhau bod dosbarthiadau'n aros yn is na'r terfyn, er y cydnabyddir y gellid bod rhwystrau i gymysgu'r cyfnod sylfaen gyda disgyblion hŷn. Ni ddylai fod unrhyw dystiolaeth o ddsbarthiadau babanod rhy fawr ochr yn ochr â dosbarthiadau babanod sydd â lleoedd gwag.

Gyda cheisiadau Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2, gallai'r awdurdod derbyn wrthod derbyn disgybl pe byddai angen iddo gyflogi athro neu athrawes arall neu fynd i gost o fath arall er mwyn cydymffurfio â'r terfyn ar faint dosbarthiadau. Gan fod nifer o ysgolion wedi mabwysiadu addysgu oedrannau cymysg yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen, gallai fod yn anodd cyfiawnhau gwrthod derbyn plentyn ar y sail hon, os oes modd trefnu dosbarthiadau i fodloni'r terfyn heb gynyddu nifer yr athrawon neu'r dosbarthiadau.

Athrawon dosbarth a chynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU)

Rhaid cael un athro neu athrawes ddsbarth bob amser ar gyfer pob 30 disgybl mewn dosbarth; i osgoi dryswch ynglŷn â phwy sy'n cael neu ddim yn cael addysgu dosbarth babanod heb oruchwyliaeth, mae **Atodiad A** yn egluro hyn drwy roi diffiniad o 'athro neu athrawes ysgol' at ddibenion maint dosbarthiadau babanod.

Rhaid i ysgol gyflogi digon o athrawon i'w galluogi i addysgu ei dosbarthiadau babanod mewn grwpiau heb fod dros 30 o ddisgyblion i bob athro neu athrawes.

Eithriadau i faint dosbarthiadau babanod

Categoriâu'r eithriadau i faint dosbarthiadau babanod

Mae Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013¹⁰ yn pennu'r amgylchiadau cyfyngedig lle gellir derbyn disgyblion fel eithriadau i'r terfyn ar faint dosbarthiadau babanod. Rhoddir y testun mewn cromfachau isod er eglurder ac mae'r llythrennau yn cyd-fynd â chategoriâu'r CYBLD. Mae'r eithriadau a'r codau isod i'w gweld fel y maent wedi'u hargraffu yng nghanllawiau'r CYBLD:

- A. Plant y mae eu datganiad o Angen Addysgol Arbennig (AAA) yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, **ac** a dderbyniwyd i'r ysgol y **tu allan** i gylch derbyn arferol.
- B. Plant y gwrthodwyd eu derbyn i ysgol yn wreiddiol, ond y cynigiwyd lle iddynt yn ddiweddarach y **tu allan** i gylch derbyn arferol drwy gyfarwyddyd panel apeliadau derbyn, neu oherwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod y gwnaed camgymeriad wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.
- E. Plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.
- F. Plant ag AAA sy'n cael eu haddysgu fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhan o'u gwersi mewn dosbarth gyda babanod yn y brif ffrwd.
- G. Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (plant sy'n derbyn gofal), neu nad ydynt yn derbyn gofal mwyach (plant oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol) oherwydd iddynt gael eu mabwysiadu neu gael eu lleoli gyda theulu neu gael gwarcheidwad arbennig **ac** sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y **tu allan** i gylch derbyn arferol.
- J. Plant a dderbynnir y **tu allan** i'r cylch derbyn arferol:
 - y mae'r **awdurdod lleol** cynhaliol **yn cadarnhau** na allant gael lle mewn ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol¹¹ i'w cartref oherwydd eu bod wedi symud i mewn i'r ardal y **tu allan** i'r cylch derbyn arferol, neu
 - eu bod yn dymuno addysg grefyddol, neu addysg cyfrwng Cymraeg a'r ysgol dan sylw yw'r **unig** ysgol addas o fewn pellter rhesymol (i'w cartref).
- K. Plant a dderbyniwyd i'r ysgol y **tu allan** i'r cylch derbyn arferol (ar gyfer y flwyddyn Dderbyn, NID Blwyddyn 1 na 2) **ar ôl** i'r ysgol drefnu ei dosbarthiadau, ac **ar ôl** diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol (ond na chyrhaeddwyd y nifer derbyn) ac y byddai'n rhaid i'r ysgol o'r herwydd gymryd camau perthnasol pe na fyddai'r cyfryw blant yn ddisgyblion a eithrir. (Pe byddai'n ymarferol ad-drefnu dosbarthiadau bryd hynny, dylid cymryd camau priodol ac ni fyddai fel arfer yn briodol penderfynu bod y plentyn yn eithriad.)

¹⁰ [Rheoliadau Derbyniadau Ysgol \(Meintiau Dosbarthiadau Babanod\) \(Cymru\) 2013](#)

¹¹ Mater i'r awdurdod derbyn yw penderfynu beth yw "pellter rhesymol".

L. Plant i bersonél (ar wasanaeth) yn y lluoedd arfog sy'n cael eu derbyn y **tu allan** i'r cylch derbyn arferol.

M. Plant y mae eu gefell neu'u brawd/brodyr neu'u chwaer/chwiorydd eraill o enedigaeth luosog yn cael eu derbyn fel disgyblion a eithrir, fel y disgybl(ion) olaf i gael lle cyn cyrraedd y nifer derbyn.

Caiff plant yng nghategoriâu E ac F eu trin fel disgyblion a eithrir dim ond pan fyddant mewn dosbarth babanod yn yr ysgol brif ffrwd neu'r tu allan i'r uned arbennig (yn ôl y digwydd).

Dim ond y plant sy'n ffitio i'r categorïau eithrio uchod sy'n cyfrif fel eithriadau. Nid yw cael eich derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol ar ei ben ei hun yn gwneud y plentyn yn gymwys i fod yn blentyn a eithrir.

Ni all disgyblion meithrin fod yn ddisgyblion a eithrir. Dim ond disgyblion a fydd yn 5, 6 neu 7 oed yn ystod y flwyddyn ysgol dan sylw all gael eu heithrio.

Ni fyddai gefeilliaid/plant o enedigaeth luosog ond yn cael eu derbyn fel eithriad os mai un o'r brodyr/chwiorydd yw'r disgybl olaf i gael ei dderbyn h.y. os mai'r nifer derbyn yw 30 ac un o'r brodyr/chwiorydd yw'r 30ain disgybl sy'n cael cynnig lle ac os na chynigiwyd lle i'r llall/lleill, yna gellir derbyn y brawd/brodyr a'r chwaer/chwiorydd hyn fel eithriad(au).

Gall unrhyw blentyn a dderbynnir i'r ysgol fel disgybl a eithrir er 9 Gorffennaf 2013 ddal i fod yn ddisgybl a eithrir drwy gydol ei amser yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, cyn gynted ag y cyfyd cyfle, naill ai drwy fod disgyblion yn gadael y dosbarth/ysgol, drwy ad-drefnu dosbarthiadau neu benodi athro neu athrawes ychwanegol, disgwylir y byddai'r disgybl yn colli ei statws eithriedig ac y byddai'r dosbarthiadau'n cydymffurfio â'r terfyn ar faint dosbarthiadau, sef 30 disgybl neu lai. Disgwylir i ysgolion gymryd pob cyfle i gyfyngu dosbarthiadau i 30 disgybl neu lai. Mae achosion o ddosbarthiadau rhy fawr ochr yn ochr â dosbarthiadau gyda llai na 30 o ddisgyblion ynddynt yn debygol o gael eu herio yn ystod y broses fonitro flynyddol.

Mae disgybl yn cadw ei statws eithriedig nes cymerir camau perthnasol i leihau maint y dosbarth neu nes bod un disgybl neu ragor yn gadael y dosbarth. Ni fyddai gan y disgybl yn yr achos hwn statws eithriedig mwyach. Bydd ef/hi yn dod yn aelod arferol o'r dosbarth.

Ni ellir derbyn disgybl arall i'r dosbarth yn lle disgybl sydd wedi gadael er bod disgybl a arferai fod yn ddisgybl eithriedig yn y dosbarth. Os bydd disgybl a eithrir yn colli'r statws hwn ni all ddychwelyd i statws eithriedig yn ddiweddarach.

EsiampI

Dosbarth derbyn 32, 30 + 1 yn cael ei dderbyn ar apêl
+ 1 yn cael ei dderbyn ar ôl symud i'r ardal gan mai dim
ond yr ysgol hon sy'n gyfleus (mae'r ddau'n eithriadau)

Mae un o'r 30 disgybl, nid disgybl a eithrir, yn gadael yr ysgol: mae hyn yn gadael 31 disgybl yn y dosbarth. Mae hyn nawr yn golygu y ceir 30 disgybl ac 1 a eithrir, mae 1 o'r disgyblion a eithriwyd yn colli'r statws eithriedig.

Yn ddiweddarach, a'r dosbarth wedi symud i Flwyddyn 1, daw cais i law yn gofyn i blentyn gael ei drosglwyddo i'r dosbarth Blwyddyn 1. Ni ellir ei dderbyn i'r dosbarth oni bai ei fod yn cymhwyso fel eithriad. Ni all y plentyn a eithriwyd yn wreiddiol ddychwelyd i statws eithriedig er mwyn i ddisgybl arall gael ei dderbyn.

Eithriadau i faint dosbarthiadau iau

Categoriâu'r eithriadau i faint dosbarthiadau iau

Mae'r eithriadau isod i'w gweld fel y maent wedi'u hargraffu yng nghanllawiau'r CYBLD :

- A. Plant y mae eu datganiad o AAA yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.
- B. Plant y gwrthodwyd eu derbyn i ysgol yn wreiddiol, ond y cynigiwyd lle iddynt yn ddiweddarach y tu allan i gylch derbyn arferol drwy gyfarwyddyd panel apeliadau derbyn, neu oherwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod y gwnaed camgymeriad wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.
- C. Plant na allant gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod yn symud i ardal y tu allan i gylch derbyn arferol.
- D. Plant a dderbynnir i ysgol ar ôl diwedd y cylch derbyniadau arferol os na chyrhaeddwyd, cyn hynny, y nifer derbyn sy'n berthnasol i grŵp blwyddyn penodol plentyn.
- E. Plant y dymunir ar eu cyfer addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol o enwad crefyddol penodol, a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol o'r fath o fewn pellter rhesymol i'w cartref (mae hyn hefyd yn berthnasol i ddisgyblion a dderbynnir y tu allan i'r cylch derbyn arferol).
- F. Plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.
- G. Plant ag anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhan o'u gwersi mewn dosbarth arferol.
- H. Plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.

Caiff plant yng nghategoriâu F a G eu trin fel disgyblion a eithrir dim ond pan fyddant mewn dosbarth iau yn yr ysgol brif ffrwd neu'r tu allan i'r uned arbennig (yn ôl y digwydd).

Ffurflenni data

Mae'r wybodaeth a roddir gan yr ysgol yn ffurflenni data CYBLD mis Ionawr yn cael ei hanfon at yr awdurdod lleol i'w dilysu. Bydd y ffurflen CYBLD ar gyfer yr ysgolion yn cael ei hanfon at Lywodraeth Cymru drwy'r awdurdod lleol a'r system DEWI ddiogel.

Mae'n bwysig bod gan yr ALI systemau wedi'u sefydlu sy'n eu galluogi, pa un ai nhw yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgol ai peidio:

- i archwilio cywirdeb y ffurflenni a rhaid iddynt sicrhau bod corff perthnasol wedi cymeradwyo derbyn unrhyw blentyn fel eithriad a ganiateir, ac
- i archwilio'r sefyllfa o safbwynt ysgolion eraill sydd o fewn pellter rhesymol os yw hwn yn rhan o'r disgrifiad ar gyfer y meini prawf.

Mae'r ymarfer casglu data yn adrodd ar nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dosbarth a faint o athrawon ysgol a geir ar gyfer y dosbarth. Mae'r data hefyd yn dangos nifer yr eithriadau, a'r math o eithriadau, ym mhob dosbarth; os yw'r gymhareb athro i ddisgybl yn uwch na 1:30 heb ddim eithriadau wedi'u cofrestru, bydd y dosbarthiadau hyn yn ymddangos fel rhai sy'n torri'r rheoliadau.

Apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn i ysgolion

Er bod rhieni'n gallu mynegi eu dewis o ran pa ysgol a gynhelir yr hoffent i'w plentyn ei mynychu, ni ellir rhoi eu dewis iddynt bob amser. Os nad yw disgybl yn llwyddo i gael lle yn ei ddewis ysgol, rhaid cynnig cyfle i'r rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad. Dylai'r llythyr i hysbysu'r rhieni na fu eu cais yn llwyddiannus gynnwys y rheswm pam y buont yn aflwyddiannus a'r camau y dylent eu cymryd i apelio.

Mae'n ddefnyddiol i awdurdodau derbyn baratoi arweiniad ar y broses apelio; gall hwn wedyn gael ei roi i rieni gyda'r llythyr yn dweud wrthynt iddynt fod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn eu dewis ysgol.

Rhaid i wrandawiadau apêl gael eu clywed cyn pen 30 diwrnod i ddyddiad cau'r cyfnod apelio. Rhaid i apelyddion gael 10 diwrnod gwaith o rybudd o ddyddiad eu gwrandawriad apêl. Os cytuna'r apelwyr i gyfnod rhybudd byrrach, rhaid i hyn gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gyda Chlerc y panel apeliadau.

Dylai paneli apêl fod yn ymwybodol o effaith eu penderfyniadau ar y dosbarth a'r ysgol yn awr ac i'r dyfodol, ac ar ysgolion yn y gymuned ehangach. Gallai derbyn gormod o ddisgyblion i un ysgol arwain at broblemau i'r ysgol honno i'r dyfodol lle mae angen i'r 'ymchwydd' gael ei reoli o flwyddyn i flwyddyn wrth i'r dosbarth symud drwy'r ysgol. Dylid hefyd ystyried yr effaith ar ysgolion eraill yn yr ardal. Gall derbyn gormod i un ysgol arwain at gynnydd mewn lleoedd gwag mewn ysgolion eraill; gallai hynny, yn ei dro, arwain at sefyllfa lle mae ysgolion yn colli athrawon ac felly ddim mor abl i gyflwyno'r cwricwlwm.

Apeliadau'n ymwneud â maint dosbarthiadau babanod

Mae'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion statudol, yn darparu mai ychydig o achosion yn unig a geir lle gallai apeliadau'n ymwneud â maint dosbarthiadau babanod a wna rhieni gael eu cadarnhau. Ni ellir ond cadarnhau'r apêl os yw'r panel apêl yn fodlon bod un o'r seiliau canlynol yn berthnasol (Atodiad C y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion).

- Sail A - byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe byddai trefniadau derbyn yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion a/neu Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
- Sail B - byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe byddai trefniadau derbyn sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau wedi cael eu gweithredu'n briodol;
- Sail C - nid oedd y penderfyniad yn benderfyniad y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi'i wneud yn amgylchiadau'r achos.

Mae Sail A yn esbonio'i hun. Os oes panel apêl yn canfod bod unrhyw agwedd ar y trefniadau derbyn yn anghyfreithlon, rhaid iddynt eu cyfeirio ar unwaith i'r awdurdod lleol a'r awdurdod derbyn (yn achos ysgol sy'n awdurdod derbyn iddi hi ei hun).

Er mwyn i apêl gael ei chadarnhau ar Sail B dylai'r panel roi ystyriaeth i'r deunydd a oedd ar gael i'r awdurdod derbyn pan wnaeth ei benderfyniad, neu'r deunydd y dylai

fod wedi bod ar gael i'r awdurdod derbyn pe byddai wedi gweithredu'n rhesymol. Fodd bynnag, mae'n bosibl i'r panel ganiatáu i ddeunydd ffeithiol newydd gael ei gyflwyno gan yr apelydd er mwyn cadarnhau'r sail ffeithiol ar gyfer eu honiad na weithredwyd y trefniadau'n briodol.

Er mwyn i apêl gael ei chadarnhau ar Sail C rhaid i'r panel fod yn fodlon bod y penderfyniad yn "wrthnysig yng ngoleuni'r trefniadau derbyn", ei fod "y tu hwnt i'r ystod o ymatebion sy'n agored i benderfynwr rhesymol" neu'n "benderfyniad sydd mor warthus yn yr ystyr ei fod yn afresymol neu'n groes i safonau moesol derbyniol na fyddai'r un person call a oedd wedi ystyried y cwestiwn wedi ei wneud".

Dylai'r panel ystyried effaith derbyn plentyn arall nid yn unig ar y dosbarth y byddai'n cael ei dderbyn iddo, ond yr effaith i'r dyfodol wrth iddo symud drwy'r ysgol a'r angen i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod, a'r polisi ar faint dosbarthiadau iau.

Mae penderfyniad y panel apêl yn derfynol a dim ond y llysoedd all ei wyrdroi os yw'r apelydd neu'r awdurdod derbyn yn gwneud cais llwyddiannus am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad hwnnw.

Mae angen i'r panel allu dod i gasgliad clir o ran ei safbwynt yng nghyswllt y 3 Sail. Er enghraifft, gellid ateb y canlynol gydag Oedd/Do neu Nac oedd/Naddo.

1. A oedd y trefniadau derbyn yn cydymffurfio â'r Cod Derbyn i Ysgolion a/neu Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998?
2. A weithredwyd trefniadau derbyn sy'n cydymffurfio yn iawn?
3. A oedd y penderfyniad yn un rhesymol?

Os oedd yr atebion i'r cwestiynau fel a ganlyn:

1. Oedden
2. Do
3. Oedd

Ni ellir cadarnhau'r apêl oherwydd mai yn erbyn y seiliau hyn yn unig y gellir asesu apêl yn ymwneud â maint dosbarthiadau babanod.

Mynychu gwrandawriad yr apêl

Rhaid i baneli apêl ganiatáu i'r apelydd fynychu gwrandawriad yr apêl a chael cyfle i gyflwyno sylwadau ar lafar ac egluro neu ychwanegu at ei apêl ysgrifenedig. Gall yr apelydd wahodd ffrind neu berthynas i'w gefnogi. Mae rhai apelyddion yn dewis cael cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer y gwrandawriad a chaiff hyn ei ganiatáu.

Nid yw bob amser yn bosibl i'r apelydd fynychu gwrandawriad yr apêl. Gall gwrandawriad yr apêl fynd rhagddo heb i'r apelydd fod yn bresennol ac, mewn achos felly, mae'r penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr apelydd.

Ni ddylai fod angen i bennaeth na chynrychiolydd ysgol dan reolaeth wirfoddol neu gymunedol fod yn bresennol yng ngwrandawriad yr apêl. Dylai swyddog cyflwyno'r awdurdod lleol gael gwybodaeth lawn am yr achos ac ef/hi fydd yn cyflwyno'u dadl dros wrthod lle gan ateb unrhyw gwestiynau y bydd y panel a'r apelydd yn eu gofyn.

Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr neu ysgolion sefydledig lle mae'r corff llywodraethu yn awdurdod derbyn, yna gall y pennaeth neu un o'r llywodraethwyr ymgymryd â rôl swyddog cyflwyno ar gyfer y gwrandawriad apêl annibynnol.

Atodiad A: Diffiniad o 'athro neu athrawes ysgol' at ddibenion maint dosbarthiadau babanod

Bydd ysgolion yn bodloni'r gofynion o safbwynt maint dosbarthiadau babanod os caiff grŵp babanod o ddim mwy na 30 eu haddysgu gan 'athro neu athrawes ysgol'¹². Mae athrawon ysgol yn cynnwys:

- Penaethiaid
- Athrawon cymwysedig
- Athrawon a hyfforddwyd dramor, mewn Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir
- Hyfforddwyr â phrofiad neu gymwysterau arbennig
- Staff ar gynllun hyfforddi athrawon seiliedig ar gyflogaeth yng Nghymru
- Athrawon graddedig
- Athrawon cofrestredig
- Athrawon-fyfyrrwyr
- Athrawon dan hyfforddiant sydd heb basio'u prawf sgiliau eto.

Nid yw 'athrawon ysgol' yn cynnwys cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch na staff cymorth o fath arall. Er hynny, mae staff cymorth yn gallu gwneud "gwaith penodedig", mewn amgylchiadau penodol; mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, paragraff 8 o Atodlen 3¹³ ac adran 14 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014¹⁴ yn dynodi amgylchiadau penodol ar gyfer Cymru.

Ni all cynorthwywyr addysgu fod yn athrawon ysgol at ddibenion y ddeddfwriaeth, hyd yn oed os ydynt yn athrawon cymwysedig. Mae manylion pellach ar bwy sy'n cael gwneud gwaith addysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir i'w gweld yn nogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru Addysgu a Chymwysterau Addysgu' (122/2013)¹⁵.

¹² Diffinnir gan adran [122 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn Addysg \(Cymwysterau Rhagnodedig Athrawon Ysgol, ayb\) 2003](#)

¹³ [Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg \(Prif Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2015](#)

¹⁴ [Deddf Addysg \(Cymru\) 2014](#)

¹⁵ [Addysgu a Chymwysterau Addysgu \(122/2013\)](#)

Atodiad B: Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau ysgolion ac ALLau

Pob ysgol:

- Cwblhau ffurflen y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn gywir;
- Gwneud y newidiadau angenrheidiol o ran staffio neu drefniadaeth i sicrhau y bodlonir y ddyletswydd o ran maint dosbarthiadau.

Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

- Sicrhau bod eu nifer derbyn yn cael ei osod drwy ddefnyddio arweiniad Llywodraeth Cymru i Fesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru;
- Cysylltu gyda'r ALI cyn derbyn plant fel eithriadau a ganiateir, gan fod angen i'r awdurdod lleol gadarnhau a oes ysgolion eraill ar gael.

Awdurdodau Lleol:

- Archwilio ffurflenni CYBLD ac ymchwilio i unrhyw achosion posibl o dorri'r ddyletswydd ar faint dosbarthiadau;
- Os oes ysgol yn gwrthod cymryd camau cymwys i gydymffurfio â'r terfyn ar faint dosbarthiadau, cyfeirio'r achos i Lywodraeth Cymru.
- **(Ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion dan reolaeth wirfoddol)** Sicrhau nad yw penderfyniadau derbyn yn arwain at dorri'r terfyn ar faint dosbarthiadau babanod.

Atodiad C: Rhestr wirio

I bob ysgol

1. **Gwirio'r nifer derbyn.**
A yw'n iawn?
2. **Adolygu trefniadaeth yr ysgol/dosbarthiadau**
A oes angen i chi ddechrau addysgu oedrannau cymysg er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd ar faint dosbarthiadau?
3. **A ydych yn defnyddio'r cyfuniad cywir o ran staff addysgu/cymorth yn eich dosbarthiadau babanod?**
Cymharwch eich defnydd o staff yn erbyn y rhestr yn Atodiad A
A ydych yn cydymffurfio â'r ddyletswydd ar faint dosbarthiadau?
A yw'r cydbwysedd iawn gennych o ran staff addysgu ar draws dosbarthiadau babanod?

I awdurdodau lleol

1. A yw'r staff perthnasol yn deall y ddyletswydd o ran maint dosbarthiadau a beth yw'r eithriadau a ganiateir?
2. A oes gennych systemau wedi'u sefydlu i archwilio'r ffurflenni CYBLD, a chanfod ac ymchwilio i ddosbarthiadau mawr a'r rhesymau amdanynt?

I Fforymau Derbyn

1. A ydych yn comisiynu adroddiadau neu'n gofyn am wybodaeth reolaidd am gydymffurfio â'r ddyletswydd ar faint dosbarthiadau babanod?